

Y Diwydiant Llechi Heddiw

Erbyn heddiw, mae yna alw mawr o hyd am lechi Cymreig o chwarel y Penrhyn. Fe'u defnyddir yn y diwydiant adeiladu fel llechi to, llechi cladin a phalmant, ar gyfer silffoedd, tirlunio a nifer o nodweddion pensaernïol megis aelwydydd a fframiau lle tân. Fe'u defnyddir hefyd i wneud llestri cinio wedi'u dylunio gan y cogydd Michelin Michael Cains. Mae

Welsh Slate yn honni mai eu cynnyrch nhw yw'r llechi cryfaf a mwyaf gwydn sy'n bod.

Defnyddiwyd llechi Cymreig o Ogledd Cymru a chwarel y Penrhyn ar façade Canolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd. Erbyn hyn, Welsh Slate Ltd sy'n berchen ar chwarel y Penrhyn ac maent hefyd yn berchen ar chwareli llechi ym Mlaenau Ffestiniog. Mae ansawdd naturiol a gwydnwch llechi'r Penrhyn yn dal yn ddiguro. Er bod newidiadau yn y diwydiant yn golygu nad yw chwarelwyr bellach yn wynebu peryglon y gorffennol a bod angen iddynt ymgymryd â phrentisiaeth hir i ddysgu eu crefft, caiff yr un hen eiriau eu sibrawd 'bod yn rhaid bod yn Gymro i ddeall y graig gan nad yw'r graig yn deall Saesneg'!!

Y prif dwll yn Chwarel y Penrhyn heddiw



Peiriannau modern ar waith yn y chwarel heddiw

TAITH Y LLECHEN

Dilynwch Daith y Llechen ar hyd llwybr Lôn Las Ogwen lle ceir amryw o baneli gwybodaeth sy'n adrodd stori unigryw llechi Ogwen, Chwarel y Penrhyn a'r bobl fu'n rhan o'r diwydiant llechi.